Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanllyfni

Llanllyfni
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6SH

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanllyfni

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanllyfni |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 77 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 53 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 14.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 11.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 77.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/10/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/10/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus, gan gefnogi disgyblion i gyflawni'n dda. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth, gan werthfawrogi cyfraniad pawb tuag at ddarparu addysg gyflawn i'r disgyblion. Mae staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd dysgu cartrefol a chefnogol.

Mae staff yn arddel yr iaith Gymraeg yn fwriadus sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau llafar disgyblion o oedran cynnar. Mae cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol sy'n cefnogi datblygiad lles ac addysgol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u cam datblygu. Maent yn datblygu medrau llythrennedd Cymraeg yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir. Er hyn, mae'r cyfleoedd bwriadus mae athrawon yn eu darparu i gefnogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu Saesneg yn gyfyngedig. Mae medrau mathemateg a digidol disgyblion yn datblygu'n briodol.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus wrth gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol, gan gyfrannu syniadau ac adeiladu ar waith ei gilydd yn hyderus. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac i gydweithio i ddatrys heriau dysgu drwy themâu addas. Nid yw'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflwyno gan staff yn ddigon heriol bob amser i ddiwallu anghenion dysgu pob disgybl yn llawn.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drylwyr. Mae'r llywodraethwyr yn darparu cymorth pwrpasol i'r pennaeth a'r staff, gan ddangos ymwybyddiaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae rhieni'r ysgol yn falch fod eu plant yn mynychu ysgol ofalgar sy'n chwarae rhan ganolog ym mywyd y gymuned leol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Ehangu’r cyfleoedd bwriadus i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn Saesneg

A2 Darparu gweithgareddau sy’n herio dysgu pob disgybl i gyflawni’n llawn

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth yn arweinydd cadarn a chydwybodol. Mae ganddo weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu diddorol a chyfoethog sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn gelfydd. O ganlyniad i rannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda disgyblion, rhieni, staff a'r gymuned ehangach, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol sy'n llawn brwdfrydedd a bwrlwm.

Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar ac effeithiol. Maent yn cydweithio'n ddiwyd i sicrhau profiadau ysgogol sydd yn cymell disgyblion i ddysgu ac yn meithrin eu chwilfrydedd naturiol yn llwyddiannus. Mae perthynas waith agos rhwng disgyblion a staff sy'n cefnogi ymddiriedaeth o ddiwylliant o ofal a lles yn llwyddiannus. Maent yn adnabod y disgyblion yn drwyadl ac yn creu amgylchedd cynhwysol a chadarnhaol ar gyfer dysgu, fel gardd yr ysgol. Mae gweledigaeth yr ysgol, sef 'darganfod pethau newydd, llwyddo gyda'n gilydd', yn hyrwyddo parch ac empathi, gan gefnogi bod pob disgybl yn ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd yr ysgol ac yn teimlo'n rhan allweddol o'i chymuned. Mae cymorthyddion dysgu yn cefnogi disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae arweinwyr a staff yn gosod pwyslais amlwg ar ddatblygu'r iaith Gymraeg. Mae staff yn fodelau iaith effeithiol sy'n annog disgyblion a'u cefnogi i ddatblygu a defnyddio'r iaith ymhob agwedd o waith yr ysgol. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac yn hynod falch o'u gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus gyda'u cyfoedion ac oedolion erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol.

Mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir ar gyfer darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a chyfoes sydd wedi ei wreiddio'n effeithiol yn y gweithgareddau dysgu i ddisgyblion. Maent yn darparu ymweliadau a phrofiadau dysgu gwerthfawr yn lleol a thu hwnt gan gynnwys ymweld â chestyll lleol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o hanes Cymru. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth a pherchnogaeth disgyblion o'u cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu dysgu yn gadarnhaol. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus tra'n ymateb yn frwd i holi treiddgar staff ac i gyfraniadau ei gilydd. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu hyder cynyddol ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus sy'n barod i ddysgu mewn amrywiaeth dda o brofiadau dysgu. Mae athrawon yn cyflwyno dulliau addysgu effeithiol sy'n cefnogi hunanreolaeth ac annibyniaeth disgyblion. Maent yn darparu profiadau dysgu diddorol i ysbrydoli disgyblion

i ddysgu. Er hyn, nid yw staff yn darparu gweithgareddau sy'n ddigon heriol bob amser i ddiwallu anghenion dysgu pob disgybl yn llawn.

Mae staff yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. O oedran cynnar, mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol, corfforol a ieithyddol yn effeithiol trwy chwarae yn yr ardaloedd pwrpasol tu mewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae medrau gwrando a siarad, a darllen, y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn darllen gan ddefnyddio llais amrywiol ac yn gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o destunau yn dda, gan gadarnhau pwysigrwydd darllen rheolaidd a mwynhau ymgolli mewn llyfrau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ffurfio llythrennau'n gywir o oedran cynnar, ac yn defnyddio ansoddeiriau priodol wrth ail-greu storïau a chwedlau, fel Cantre'r Gwaelod. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn parhau i ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol yn y Gymraeg. Er hyn, mae'r cyfleoedd bwriadus mae athrawon yn eu darparu i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu Saesneg yn gyfyngedig.

Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. O oedran ifanc, maent yn adnabod rhifau i ddeg, ac yn defnyddio eu gwybodaeth am briodweddau siapiau rheolaidd yn hyderus. Maent yn elwa o'r profiadau ymarferol yn ardaloedd allanol dŵr ac adeiladu. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau rhif yn fwriadus wrth ddatrys problemau geiriol gyda hyder cynyddol. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau corfforol gyda hyder a hyfedredd cynyddol, sy'n cynnwys cystadlu mewn campau yn erbyn ysgolion eraill.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus drwy gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol, gan gyfrannu syniadau ac adeiladu ar waith ei gilydd. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn elwa o sesiynau dysgu dawns greadigol gan gwmni ballet cenedlaethol gan berfformio mewn theatr leol. O ganlyniad, maent yn datblygu hyder, mynegiant creadigol a medrau cydweithio cadarn yn effeithiol.

Mae trefniadau ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithiol ac yn cael eu gweithredu'n dda. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cefnogaeth yn amserol ac yn briodol, gyda staff yn cydweithio'n agos â rhieni a phartneriaethau allanol. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, ac mae effaith y cymorth yn amlwg ar hyder a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion ag ADY yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaethau, perfformiadau ac ymgyrchoedd cymunedol yn llwyddiannus, ac yn cefnogi mentrau fel 'Ffrindiau Dementia'. Mae'r profiadau hyn yn meithrin empathi, gofal ac ymdeimlad o gyfrifoldeb at ei gilydd ac eraill yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio eu credoau ysbrydol a moesegol. Yn ystod sesiynau addoli ar y cyd, mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddysgu am werthoedd pwysig, gan gynnwys cydraddoldeb, hawliau, a thegwch. Trwy hyn, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r angen i drin pawb mewn cymdeithas gyda pharch.

Mae llais y disgybl yn elfen o fywyd a gwaith yr ysgol yn briodol, fel wrth gyflwyno syniadau am weithgareddau sy'n cyd-fynd a'r themâu. Mewn gweithgareddau grwpiau llais, caiff disgyblion gyfleoedd priodol i leisio barn, dylanwadu ar benderfyniadau a hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg, gwella mannau chwarae ac at feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb at ei gilydd.

Mae'r pennaeth a staff wedi sefydlu trefniadau pwrpasol ar gyfer monitro'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth yn synhwyrol er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth a'r effaith ar safonau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol ac yn dangos dealltwriaeth drwyadl o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn ymgymryd ag ystod addas o weithgareddau monitro sy'n hybu eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cefnogi lles staff yn flaenoriaeth barhaus. Maent yn ystyrlon o gyfrifoldebau staff ac yn darparu cefnogaeth bwrpasol er mwyn hybu eu lles emosiynol. Er enghraifft, mae'r pennaeth yn neilltuo amser rheolaidd i sgwrsio gyda staff am eu gwaith, ac yn trafod unrhyw lwyddiannau neu bryderon sydd ganddynt ynghyd â'u dyheadau i'r dyfodol.

Mae'r rhieni yn falch bod eu plant yn mynychu ysgol sy'n un teulu cefnogol ac yn ganolog i fywyd y gymuned leol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2025